**YSGOL CLYWEDOG**
Ffordd Rhuthun
Wrecsam
LL13 7UB

Rhif ffôn: 01978 346800
Gwefan: www.clywedog.org
E-bost: mailbox@clywedog.wrexham.sch.uk

PENNAETH
WRECSAM, GOGLEDD CYMRU
L29 i L35 [£85,441 i £97,996]
Ar gyfer Medi 2022 neu cyn gynted â phosibl
Parhaol, Llawn Amser

Mae Ysgol Clywedog yn ysgol gyfun gymysg, cyfrwng Saesneg i ddisgyblion 11 i 16 oed a gynhelir gan Awdurdod Lleol Wrecsam. Mae'r Corff Llywodraethu yn dymuno penodi ymgeisydd rhagorol i arwain yr ysgol ar ei thaith tuag at welliant. Mae'n rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus fod â'r gallu i ddangos ymrwymiad llwyr i ddarparu dysgu ac addysgu a chefnogaeth o ansawdd uchel i bob disgybl, mewn amgylchedd cynhwysol, a fydd yn galluogi pob disgybl unigol i lwyddo.

Mae'r ysgol wedi'i lleoli yn Wrecsam, Gogledd Ddwyrain Cymru, ac mae'n falch o, ac yn dathlu ei threftadaeth a'i hunaniaeth ddiwylliannol. Mae Wrecsam yn gorwedd yn Nyffryn Dyfrdwy rhwng mynyddoedd Cymru a gwastadoedd Swydd Gaer. Mae'r dref mewn lleoliad a all gynnig cefn gwlad hardd Gogledd Cymru, ac o fewn munudau, dinasoedd bywiog fel Caer, Manceinion a Lerpwl – lle cewch amrywiaeth eang o ddiwylliant, bywyd nos a siopau.

Yn Ysgol Clywedog, rydym yn cynnig amgylchedd cynhwysol i 788 o fyfyrwyr sy'n galluogi pob disgybl unigol i lwyddo. Hoffwn benodi Pennaeth gyda phrofiad sylweddol o weithio mewn lleoliad addysg uwchradd, ac yn ymwybodol o beth yw darpariaeth ragorol, cynnydd academaidd a chynhwysiant.

Rydym yn chwilio am arweinydd deinamig gyda gwir awydd i wneud gwahaniaeth i addysg myfyrwyr Wrecsam. Yn ogystal, bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio'n agored, yn gynhwysol ac yn gydweithredol gyda'r Awdurdod Lleol, Gwasanaeth Gwella Ysgolion Rhanbarthol (GwE) a rhanddeiliaid er mwyn creu amgylchedd addysgol sy'n ysgogi, yn cefnogi ac yn meithrin myfyrwyr. Mae'n rhaid bod gan yr ymgeisydd llwyddiannus ddealltwriaeth ddofn o'n gweledigaeth a'n gwerthoedd a bod gydag ymrwymiad iddynt.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn unigolyn ysbrydoledig gyda Chymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (CPCP) a gyda'r gallu i ddangos egni, brwdfrydedd a sgiliau arwain profedig.

**Cais**: Amgaewch lythyr (hyd at 2 ochr A4) gyda'ch ffurflen gais sydd yn amlinellu sut mae eich gwybodaeth, sgiliau a phrofiadau yn bodloni gofynion y disgrifiad swydd a'r fanyleb person. Rhowch dystiolaeth o'r effaith gadarnhaol yr ydych wedi'i chael o fewn eich swyddi diweddar a'r hyn y gallech ei gynnig i'n hysgol.

Dylid dychwelyd ceisiadau wedi'u cwblhau at Gadeirydd y Llywodraethwyr, drwy e-bost:

**AT SYLW: Mrs S Wyn Davies, Cadeirydd y Llywodraethwyr: sioned.wyndavies@clywedog.org**

neu drwy'r post:
**AT SYLW: Mrs S Wyn Davies, Cadeirydd y Llywodraethwyr**
**Ysgol Clywedog**
**Ffordd Rhuthun**
**Wrecsam**
**LL13 7UB**

(

**Dylid cyflwyno ceisiadau dim hwyrach na 12yp, ddydd Llun 21 Mawrth 2022.**

Os hoffech drefnu taith o amgylch yr ysgol, cysylltwch â Denise Laing os gwelwch yn dda.
Rhif ffôn: 01978 346800 neu e-bost: denise.laing@clywedog.org

Byddwch cystal â nodi fod pob swydd ysgol yn amodol ar wiriad manylach y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Mae'n rhaid i ymgeiswyr brofi bod ganddynt brofiad naill ai trwy fod yn Bennaeth mewn swydd neu feddu ar gymhwyster CPCP ar y dyddiad dechrau.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr cymwys beth bynnag fo'u hil, rhyw, anabledd, rhywioldeb, cred grefyddol neu oedran.

Ymweliadau â'r Ysgol: Dydd Mawrth 15 Mawrth 2022

Dyddiad Cau: 12yp, ddydd Llun 21ain Mawrth 2022

Dyddiad Cyfweld: Dydd Llun 4ydd a dydd Mawrth 5ed Ebrill 2022

CONFIDENTIAL